

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn:Tel: 07896964120

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

2/3/17

Presennol: Y Maer Edith Roberts, Dilys Evans, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, Eifion Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

1. Croesawodd y Maer pawb a derbyniodd ymddiheuriadau oddi wrth Dorothei Evans, Sharon Evans a Dilwyn Jones.
2. **Cyhoedd:** Derbyniwyd cyflwyniad ar Wyl Awyr Agored Eryri gan Nicola Meadley, Lisa Knipe, Alaister Syme a Ceidiog Hughes. Amlinellwyd y cynlluniau ar droed, yn cynnwys rheolaeth traffic, trwydded i werthu alcohol, a'r cydweithio gyda Pharc Chenedlaethol Eryri. Disgwylir dros dair mil o wersyllwyr yn ystod y penwythnos a thynnu am fil y diwrnod o ymwelwyr dyddiol. Roedd y Trefnwyr yn awyddus i fusnesau lleol gael y cyfle i arddangos ac i bobl leol berfformio neu wirfoddoli. Mynegwyd y farn fod y dyddiad yn anffodus gan ei fod yn taro ar ddiwedd yr Eisteddfod Genedlaethol. Gofynnwyd iddynt ystyried gostwng y pris mynediad i bobl leol .
3. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiad buddiant gan Eifion Roberts ym mater 8v sef tendrau ar gyfer gwaith cynnal Y Domen.
4. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 16eg Chwefror, 2017.
5. **Gwybodaeth gan y Clerc:** Gwnaethpwyd trefniadau i gynrychiolwyr o'r Cyngor gyfarfod Derec Wyn Morgan i drafod trefniadau parcio ar y Stryd Fawr.
6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Sir a ddywedodd fod y gwaith ar y Stryd Fawr yn mynd rhagddo, gan gynnwys gwaith ar y draeniau ac ar docio'r coed. Casglodd gwybodaeth am fannau lle mae graffiti wedi ymddangos yn y dref a diolchwyd iddo am wirfoddoli i'w waredu. Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at Gartrefi Cymunedol Gwynedd i fynegi gwerthfawrogiad o'r gwaith adfer ar eu heiddo yn Y Bala.
7. **Materion Cynllunio:** Cymeradwywyd Cais **NP5/53/555A** a **556A**, sef gwelliannau i dai Cartrefi Cymunedol Gwynedd, ym Mro Eryl a Maes y Bronnydd

8. Materion Cyllid

- i. Eglurodd y Clerc am sic eic am TAW at anfoneb Gwynedd (Chwefror).
- ii. Derbyniwyd taliad am Goed Nadolig.
- iii. Derbyniwyd gohebiaeth gan Hill & Roberts parthed HMRC a'r Rheolydd Pensiwn.
- iv. Gan fod "*planings*" o'r Stryd Fawr ar werth a'r clybiau chwaraeon lleol yn barod i wirfoddoli i lenwi tyllau ar feysydd parcio wrth y Ro Wen ac wrth

Heol y Castell, cytunwyd i wneud cyfraniad i'w galluogi i gyflawni'r gwaith trwsio. Cytunwyd i anfon £800 at Gymdeithas Chwaraeon Y Bala a Phenllyn (maes parcio wrth Heol y Castell) a £200 at y Clwb Rygbi (maes parcio wrth y Ro Wen) gan ddiolch yn fawr iddynt am fanteisio ar y cyfle o gael deunydd trwsio.

- v. Ystyriwyd tendrau ar gyfer gwaith cynnal Y Domen a chytunwyd i gynnig y gwaith i Gwilym Prys Edwards, gan ddiolch i bawb arall am eu diddordeb yn y gwaith.
- vi. Cytunwyd i dalu £35 i Un Llais Cymru am hyfforddiant ar 2/2/17.

9. Gohebiaeth:

- i. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd ffurflenni enwebu a manylion ar gyfer Etholiadau mis Mai.
 - ii. **Asiantaeth cefnffyrdd:** Derbyniwyd gwybodaeth am docio'r coed ar y Stryd Fawr.
 - iii. **Un Llais Cymru:** Cytunodd Cyngorydd Dilwyn Morgan i gynrychioli'r Cyngor yn yr hyfforddiant "Cynllunio Cymunedol" yn Y Bala 15/3/17
 - iv. **Arall:** Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gefnogaeth ariannol gan Grŵp Pêl-droed Ieuenctid Y Bala.
10. **Partneriaeth Penllyn:** Ystyriwyd cynnal llwybrau cyhoeddus yn y dref a chytunwyd i ystyried eto'r mis nesaf ar ôl derbyn mwy o fanylion.
11. **Asedau'r Cyngor:** Cytunodd Eluned Jones a Carol Rowlands i greu portffolio o luniau o asedau'r Cyngor a chynllun yn dangos eu lleoliad.
12. **Materion lleol y Cyngorwyr Tref:** Dim materion eraill